# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 1

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

## PENNOD 2

GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AWDURDOD LLEOL

### 17 Terfynu aelodaeth pan fo person yn peidio â bod yn aelod o awdurdod

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson (P)—

(a) a benodir yn aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol, neu o is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, a

(b) sy'n aelod o'r awdurdod ar adeg y penodiad hwnnw.

(2) Os yw P yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod, mae P hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw P—

(a) yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod oherwydd iddo ymddeol, a

(b) yn cael ei ailethol yn aelod o'r awdurdod heb fod yn hwyrach na diwrnod ei ymddeoliad.

(4) Mae is-adran (3) yn ddarostyngedig i reolau sefydlog yr awdurdod neu rai'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**I2** A. 17 mewn grym ar 30.4.2012 gan O.S. 2012/1187, **ergl. 2(1)(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/04/2012.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 17.